



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Iechyd a Gofal Gwybodus

Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ddigidol ar gyfer Cymru



ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Am beth y mae'r strategaeth hon yn sôn?	5
Ein Gweledigaeth	6
Cyflwyniad	7
Gwybodaeth i chi	11
Cefnogi gweithwyr proffesiynol	17
Gwelliant ac arloesedd	23
Dyfodol cynlluniedig	27
Y Camau Nesaf	29
OFCOM: Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu: Cymru (Awst 2015)	30
Cyfeiriadau	31

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 2313

© Hawlfraint y Goron 2015

WG24851

Rhagair y Gweinidog

Rhaid i fynediad gwell at wybodaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gofal drwy dechnolegau digidol fod wrth galon ein cynlluniau gwasanaeth a'n gweledigaeth ar gyfer gofal iechyd darbodus.

Tra bo llawer ohonom yn defnyddio technoleg ddigidol yn y gwaith neu wrth siopa, bancio, archebu gwyliau a chadw mewn cysylltiad â theulu a chyfeillion, dylai darparwyr iechyd a gofal hefyd gynnig gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy personol a rhyngweithiol.

Ar adeg o gyngor parhaus, gyda galw cynyddol a phwysau na welwyd eu tebyg o'r blaen ar wasanaethau, mae'r strategaeth hon yn gweld y cyfleoedd sydd yna i wella effeithlonrwydd, diogelwch ac ansawdd gwasanaethau drwy wella mynediad at wybodaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau clinigol a gofal gyda chymorth technolegau gwybodaeth a thechnolegau digidol modern i sicrhau dyfodol mwy gwybodus sy'n cael ei hwyluso gan gyfryngu digidol.

Mae'n hanfodol bod manteision offer digidol a mynediad at wybodaeth ar-lein ar gael i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, a'r rheiny sy'n darparu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal ag i'n dinasyddion. Dylai cleifion, gofalwyr a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol fedru defnyddio gwybodaeth fanwl gywir, yn ddiogel, ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei hangen.

Mae pobl wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau cael digon o wybodaeth a chymorth i reoli eu hiechyd eu hunain; mae arnynt eisiau cael eu hamddiffyn rhag niwed a medru eu hamddiffyn eu hunain rhag niwed y maent yn gwybod amdano; mae arnynt eisiau medru derbyn y gofal iawn mor lleol ag y bo modd a medru cyfrannu i wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus; mae arnynt eisiau cael mynediad yn fuan at wasanaethau ar sail angen clinigol a chael rhan weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.



Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dylem fedru cael gweld y wybodaeth amdanom ni ein hunain, sy'n ymwneud â'n hiechyd a'n gofal, er mwyn ein galluogi i edrych ar ein hól ein hunain a pharhau i fyw'n annibynnol gyhyd ag y bo modd a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch y gwasanaethau, y gofal a'r gefnogaeth y mae arnom eu hangen. Dylem fod yn defnyddio technoleg i ddarparu triniaeth effeithiol a chynorthwyo gweithwyr proffesiynol a chleifion i weithio fel partneriaid, ond sicrhau yr un pryd bod gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn cael ei diogelu.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd (HGI) flaenorol a'r rhaglen weithredu genedlaethol sydd wedi creu seilwaith cenedlaethol a llwyfan technegol cryf.

Cafodd y rhaglen HGI ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddarparu cofnod claf sengl, electronig, integredig gyda'r data ar gael pryd a ble y byddai ei angen.

Yng Nghymru, cafodd y dechnoleg newydd ei mabwysiadu fesul tipyn a gyda chydysyniad gweithwyr iechyd proffesiynol, ac felly llwyddwyd i osgoi helbulon y newid ar raddfa fawr mewn technoleg a brofwyd mewn gwledydd eraill. Mae'r dull hwn wedi bod o blaid mabwysiadu gwasanaethau safonol, cyffredin gan ddefnyddio technoleg fodern, seiliedig ar y we.

Bu ymgysylltiad clinigol yn bwysig o'r cychwyn, a'r ddarpariaeth yn cael ei gyrru gan ymrwymiad i ddysgu oddi wrth brofiad. Mae gwranddo ar anghenion y gwasanaeth a defnyddwyr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaethau gwybodaeth newydd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol ynglŷn â rheoli gwybodaeth, cydsyniad a diogelwch cleifion.


O ganlyniad, mae gan Gymru lwyfan technegol cenedlaethol i gynnal yr integreiddiad sydd ei angen i drawsnewid gwasanaethau, gyda gwasanaethau cenedlaethol a systemau cyffredin yn ei gwneud yn haws i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol weithio ar draws ffiniau a gwella cysondeb gofal.

Gall meddygon teulu mewn gwasanaethau 'y tu allan i oriau' gael mynediad at y cofnodion meddygol electronig a gedwir gan feddyg teulu'r claf. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael cyn bo hir yn yr holl leoliadau sy'n darparu gofal sydd heb ei gynllunio, gan gynnwys unedau Damweiniau ac Achosion Brys, gan wella diogelwch cleifion a'i gwneud yn bosibl dechrau triniaeth yn gynt.

Yn ein hysbytai, gall gweithwyr iechyd proffesiynol edrych ar wybodaeth o ffynonellau amrywiol drwy wasanaeth pwrpasol ar y we a elwir yn Borth Clinigol Cymru. Mae'n symleiddio'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau bod gofal yn canolbwyntio ar y claf, gan gynnwys archebu profion, creu ac edrych ar ddogfennau electronig (e.e. atgyfeiriadau a chrynodebau rhyddhau), ac mae'n galluogi fferyllwyr i gadw cofnodion meddyginiaethau mwy manwl gywir.

Rydym wedi elwa o ddull 'unwaith i Gymru' a byddwn yn parhau gyda hyn fel egwyddor wrth weithio gyda'n prifysgolion a'n partneriaid mewn diwydiant, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol hefyd, i ddatblygu systemau digidol cyflym, hyblyg ac arloesol.

Er bod y ddogfen hon yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf, mae cyflymdra cynyddol y newid a'r arloesi technolegol yn golygu nad yw wedi ei bwriadu fel patrwm manwl ar hyd y cyfnod hwn. Yn hytrach, mae'n egluro ein huchelgais a'n disgwyliadau, fydd yn sicrhau buddion gwirioneddol ac yn gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru.



Mark Drakeford AC

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol*

Am beth y mae'r strategaeth hon yn sôn?

Mae technolegau digidol a gwasanaethau ar-lein wedi dod yn rhan o fywydau beunyddiol llawer o bobl yng Nghymru. Gallwn fancio, siopa, gweithio, darllen, mwynhau cerddoriaeth a ffilmiau, archebu gwyliau ac aros mewn cysylltiad â chyfeillion a chydweithwyr ar draws y byd ar-lein, gan ddefnyddio cyfrifiadur personol, tabled a dyfeisiadau symudol megis ffonau clyfar.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio technoleg a mynediad gwell at wybodaeth i fod o gymorth i wella iechyd a lles pobl Cymru. Mae'n disgrifio Cymru, lle mae gan ddinasyddion fwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u gofal cymdeithasol, lle maent yn medru cael mynediad at eu gwybodaeth a rhyngweithio â gwasanaethau ar-lein mor hawdd ag y maent â sectorau cyhoeddus eraill neu agweddau eraill ar eu bywydau, gan hyrwyddo tegwch rhwng y rhai sy'n darparu a'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, fel sy'n cydfynd â gofal iechyd darbodus a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Mae'n disgrifio Cymru lle mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael mynediad at yr un offerynnau digidol yn y gweithle ag y maent yn eu mwynhau gartref neu y byddent mewn diwydiannau eraill, fel eu bod yn medru canolbwyntio ar ddarparu gofal effeithlon o safon uchel a diogel a chynllunio ar gyfer newid yn y gweithlu ac yn y gwasanaeth gyda seilwaith a alluogir gan y cyfryngau digidol.

Mae arnom eisiau dyfodol lle mae'r staff, defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a gofalwyr yn cael eu grymuso ac yn meddu ar fwy o wybodaeth, lle nad yw ffiniau sefydliadol yn rhwystr rhag darparu gofal effeithiol, gan fod gwybodaeth ar gael yn electronig ac mewn ffordd gyson, a lle mae arloesedd a gwelliant yn gallu ffynnu, gyda seilwaith technegol cadarn ac amgylchedd diogel i'r rheiny sy'n gweithio yn neu yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

Bydd cydweithredu, cynllunio a gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, gyda diwydiant a'r byd academaidd, yn nodwedd bwysig, gan sicrhau bod Cymru'n medru ymateb yn sydyn i newidiadau cyflym yn y byd digidol a nodi ffyrdd y gellir mabwysiadu arfer gorau i sicrhau bod y buddion yn cael eu gwireddu i bobl Cymru.

Er bod y byd digidol yn parhau i ehangu, fe fydd yna bobl yng Nghymru na fyddant efallai yn dymuno cael mynediad at wybodaeth, ymgysylltu â gwasanaethau, na derbyn cyngor a chefnogaeth yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y strategaeth hon. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd pobl yn cael eu cynorthwyo ac yn cael dewisiadau gwahanol i gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, fydd yn eu galluogi i barhau i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu hiechyd a'u lles eu hunain. Efallai y bydd yna staff hefyd sy'n brin o'r sgiliau neu'r hyder ar hyn o bryd i ddefnyddio technoleg neu gymryd rhan mewn ailddylunio gwasanaeth a ffyrdd newydd o weithio gan ddefnyddio offer digidol. Bydd rheoli'r newid diwylliannol a gofynion datblygu'r gweithlu yn unol â'r strategaeth hon yn ganolbwynt allweddol i gyrff y GIG ac i awdurdodau lleol.

Ein Gweledigaeth

Gwybodaeth i chi

Bydd pobl yn medru edrych ar ôl eu lles eu hunain a chysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy effeithlon ac effeithiol, gyda mynediad ar-lein at wybodaeth a'u cofnodion hwy eu hunain. Byddant yn medru cynnal amrywiaeth o drafodaethau iechyd yn uniongyrchol gan ddefnyddio technoleg, a defnyddio offer digidol ac apiau i fod o gymorth i ofalu amdanynt eu hunain, monitro eu hiechyd a dal i fyw yn annibynnol.

Cefnogi gweithwyr proffesiynol

Bydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn defnyddio offer digidol ac yn cael gwell mynediad at wybodaeth i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, gyda gwelliannau mewn ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd. Bydd dull 'unwaith i Gymru' yn creu llwyfan cadarn ar gyfer safonau cyffredin a rhyngweithio rhwng systemau a mynediad at gofnodion electronig strwythuredig ym mhob lleoliad gofal i gydgyssylltu a chyd-drefnu gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau, cleifion a gofalwyr.

Gwelliant ac Arloesedd

Bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwneud gwell defnydd o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i wella'r penderfyniadau a wneir, cynllunio newid mewn gwasanaeth ac ysgogi gwelliant mewn ansawdd a pherfformiad. Bydd cydweithredu ar draws y system gyfan, a chyda phartneriaid mewn diwydiant ac yn y byd academiaidd, yn sicrhau y gellir harneisio datblygiadau digidol ac arloesedd a, thrwy agor y llwyfan technegol 'unwaith i Gymru', yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac ystwythder wrth ddatblygu gwasanaethau a chymwysiadau newydd.

Dyfodol Cynlluniedig

Bydd iechyd a gofal cymdeithasol digidol yn ffactor allweddol i drawsnewid gwasanaeth yng Nghymru. Bydd cyd-gynllunio, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn sicrhau bod y cyfleoedd a'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth hon yn cael blaenoriaeth, ynghyd â'r canllawiau cynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

Gwybodaeth i chi

Cysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Defnyddio technoleg, offer digidol ac apiau.

Gofalu am eich lles eich hun.

Cefnogi gweithwyr proffesiynol

Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio offer digidol i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol.

'Unwaith i Gymru'
Creu llwyfan cadarn rhwng systemau.



Gwelliant ac arloesedd

- diwydiant
byd academiaidd
- Gwella penderfyniadau
 - Gwell defnydd o ddata
 - Cynllunio newid mewn gwasanaeth
 - Gwella ansawdd a pherfformiad.

Dyfodol cynlluniedig

Cyd-gynllunio, gweithio mewn partneriaeth & ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod cyfleoedd yn cael blaenoriaeth.



Cyflwyniad

Cafwyd datblygiadau aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf yn ein defnydd personol a'n mynediad at wybodaeth, cymwysiaid cyfrifiadurol a gwasanaethau ar-lein. Mae cyfleoedd sylweddol bellach yn bodoli i wella profiadau dyddiol y cyhoedd a'n gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein huchelgais i adeiladu ar y cynnydd yr ydym eisoes wedi ei wneud a thrawsnewid sut y mae pobl Cymru, ein dinasyddion a'n staff, yn croesawu technoleg gwybodaeth fodern ac offer digidol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy diogel, mwy effeithlon a chyson i wella canlyniadau a phrofiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Gan adeiladu ar y sylfaen sydd gennym eisoes yng Nghymru, megis ein rhwydwaith band eang sector cyhoeddus senglⁱ a'r corff cyflawni cenedlaetholⁱⁱ, mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau nesaf ar ein taith i ddarparu'r wybodaeth a'r gwasanaethau digidol modern sy'n galluogi:

- Pobl i reoli eu lles eu hunain a chysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy effeithlon ac effeithiol a chael y profiadau gorau posibl pan fo arnynt angen cyngor, cymorth, triniaeth a gofal.
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i wneud eu swyddi a darparu gwasanaethau diogel, o safon uchel.
- Cynllunwyr a llunwyr polisi i lunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y strategaeth flaenorol, *Hysbysu Gofal Iechyd* (HGI)ⁱⁱⁱ, a lanswyd fwy na degawd yn ôl, sydd wedi gweld sefydliadau'r GIG a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu systemau a gwasanaethau TG Cymru gyfan. Mae strategaeth HGI wedi galluogi GIG Cymru i wneud cynnydd sylweddol mewn sefydlu elfennau allweddol o'r seilwaith a'r dylunio technegol (y ffordd y bwriedir i'n systemau

weithio gyda'i gilydd) ac felly rydym mewn sefyllfa dda o safbwynt technegol i adeiladu ar hyn i gefnogi'r trawsnewid mewn gofal yn y dyfodol.

Ymhlith y datblygiadau i wasanaethau mae:

- Porthol Clinigol Cymru. Hwn yw'r prif bwynt mynediad at wybodaeth ar gyfer clinigwyr ysbytai. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth allweddol o'r llu o systemau a ddefnyddir gan ysbytai, gan ganiatáu i'r clinigwr edrych ar gofnod claf mewn un lle a defnyddio system gyffredin i gyflawni tasgau amrywiol e.e. gofyn am brofion, adolygu canlyniadau neu greu llythyr hysbysu ynghylch rhyddhau.
- Gwasanaeth Archifo Delweddau Cymru, gan gynnwys PACS, gwasanaeth archifo darluniau a chyfathrebu, un ateb ar gyfer Cymru, i'w gwneud yn bosibl trosglwyddo pelydrau X, sganiau a delweddau digidol.
- System Wybodaeth Radioleg Cymru (neu Radis), gwasanaeth rheoli radioleg Cymru gyfan, a ddefnyddir ar gyfer cofrestru cleifion, adroddiadau clinigol, dyrannu adnoddau, adroddiadau rheoli, rheoli amseroedd clinigau ac amseroedd disgwyl.
- Gwasanaeth Canlyniadau ac Adroddiadau Cymru, sy'n cynnwys System Rheoli Gwybodaeth Labordy, system integredig modern ar gyfer Cymru gyfan, sy'n ei gwneud yn bosibl gweld canlyniadau profion ac adroddiadau ymchwiliadau ble bynnag y bydd y claf yn derbyn gofal.
- Cofnod Meddygon Teulu Cymru (neu gofnod iechyd unigol), sy'n caniatáu i wasanaethau y tu allan i oriau a gwasanaethau brys weld copi electronig o'r cofnod meddygol a gedwir gan feddyg teulu'r claf.

- Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio i anfon negeseuon clinigol electronig o leoliad gofal sylfaenol i ysbytai a lleoliadau eraill ledled Cymru.
- CaNISC, system gyfrifiadurol sy'n cefnogi gofal cleifion â chanser.
- Gwasanaeth Cyfeiriadur ac E-bost Cenedlaethol (Nadex), sy'n caniatáu i staff fewngofnodi i systemau a gwasanaethau, waeth ble maent yn defnyddio cyfrifiadur, gydag un llyfr cyfeiriadau cyfredol a'r cyfeiriad e-bost "am oes", sy'n para gyhyd ag y bydd y staff yn aros o fewn GIG Cymru. Mae hyn hefyd yn rhoi hunaniaeth unigryw i staff y GIG sy'n cael ei defnyddio i ddilysu defnyddwyr i'r systemau cenedlaethol yn ddiogel.
- System Weinyddu ar gyfer Cleifion Cymru, "Myrddin", a ddefnyddir mewn chwech allan o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru i reoli cofrestru cleifion.
- Prif Fynegai Cleifion, sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod claf yn unigryw a chroesgyfeirio ei hunaniaeth gyda chofnodion a gedwir mewn systemau eraill.
- Gwasanaeth Demograffig Cymru. Dyma'r brif ffynhonnell ar gyfer rhif GIG pob claf, ac mae'n cadw manylion demograffig yr unigolyn.
- Fy Iechyd Ar-lein (MHOL), y porth cleifion a ddefnyddir gan ddinasyddion i archebu apwyntiadau gyda meddyg teulu neu ofyn am bresgripsiynau amlroddadwy.
- Mae gan yr holl feddygfeydd yng Nghymru systemau cyfrifiadurol y genhedlaeth nesaf a gallant anfon atgyfeiriadau electronig i ofyn am apwyntiadau cleifion allanol. Gallant hefyd dderbyn hysbysiadau electronig ynghylch rhyddhau cleifion, gan wella effeithlonrwydd a diogelwch cleifion. Mae canlyniadau'r profion y mae meddygon teulu wedi gofyn amdanynt yn cael eu hanfon yn electronig. Mae meddygon teulu yn cael gwasanaeth cymorth gofal sylfaenol pwrpasol, sy'n cael ei reoli gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

- Hefyd, mae deintyddion ac optegwyr yn cael mynediad at rwydwaith GIG Cymru, sy'n caniatáu iddynt anfon atgyfeiriadau electronig ar gyfer gofal arbenigol.
- Yn ogystal, mae Cymru wedi caffael System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) fydd yn gymorth i gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Bydd hon yn galluogi staff sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol i ddefnyddio un system ynghyd â rhannu cofnod electronig o'r gofal.

Fodd bynnag, bydd ein llwyddiant yn y dyfodol yn gofyn am fwy na thechnoleg. Bydd yn gofyn am newid mawr yn y ffordd y mae'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn croesawu'r cyfleoedd a nodir yn y strategaeth hon ac yn rheoli'r newid i'r arferion gweithio newydd, a alluogir yn ddigidol ac sy'n ei gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth, integreiddio gwaith tîm a gosod yr unigolyn wrth ganol eu gofal. Bydd newid diwylliannol ynghyd â datblygu gwybodaeth a sgiliau ar draws ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol



Nyrs Staff
Defnyddio Porth Clinigol Cymru

yn faes allweddol i ganolbwyntio arno. Bydd newid agweddau ac ymddygiad pobl yng Nghymru, i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw a dod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu gofal eu hunain, yn gofyn am wybodaeth, cymhelliant a'r parodrwydd i fanteisio ar y cyfleoedd digidol a nodir yn y strategaeth hon.

Bydd angen i gyrff y GIG, awdurdodau lleol a NWIS yn benodol wneud newidiadau i sicrhau:

- Bod arweinwyr ar bob lefel ar draws ieched a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni.
- Bod cyllid ar gyfer gwasanaethau digidol a thechnoleg yn cael ei ystyried gan yr holl sefydliadau yn fuddsoddiad hanfodol os am adeiladu gwasanaethau mwy diogel, cynaliadwy, cyson ac effeithlon.
- Bod strwythurau llywodraethu a phrosesau cynllunio, ar lefel leol a chenedlaethol, yn addas i'r diben er mwyn cyflawni'r strategaeth hon mewn dull hyblyg a ffordd sy'n esblygu.
- Bod dull newydd yn cael ei gyflwyno o ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod pobl yn ganolog i'r strategaeth hon a bod ganddynt lais mewn gosod gofynion, adnewyddu'r meddwl strategol a chyd-ddylunio ein dyfodol digidol yn barhaus.
- Bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw fylchau mewn sgiliau o ran defnyddio offer digidol ar gyfer y gweithlu presennol a'r dyfodol. Rhaid mynd i'r afael â'r newid diwylliannol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn llwyr dderbyn y ffyrdd newydd o weithio, gan ddefnyddio technoleg a chofnodion electronig.

Mae'r ddogfen hon yn gosod yr uchelgeisiau ar gyfer y tymor hirach ac yn sefydlu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu'n fuan. Nid yw'n gynllun cyflawni manwl ond mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer cynllunio cydweithredol, system-gyfan gan y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, gan ddefnyddio'r mecanweithiau cynllunio a phartneriaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys byrddau gwasanaethau lleol, y gwasanaeth integredig

tair blynedd, cynlluniau gweithlu a chynlluniau ariannol a gynhyrchwyd gan fyrdau ieched ac ymddiriedolaethau'r GIG a'r cynlluniau integredig sengl^{iv} a ddatblygwyd ar lefel awdurdodau lleol.

Y cyd-destun a gyrrwyr polisi

Amcanion triphlyg ein system ieched a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw gwella ieched a lles y boblogaeth, gwella ansawdd y gofal a ddarparwn yn barhaus a sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf o'r adnoddau sydd gennym ar gael.

Fel systemau ieched a gofal cymdeithasol eraill ar draws y byd, mae Cymru'n wynebu cyfnod estynedig o galedi, a chyda chyllidebau mwyfwy cyfyngedig mae ein ffocws ar ddarparu gofal ieched darbodus^v a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy^{vi} gan sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i'r eithaf.

Ar yr un pryd, mae'r galwadau ar y system ieched a gofal cymdeithasol yn cynyddu. Mae ein poblogaeth yng Nghymru yn tyfu ac yn heneiddio; mae mwy o bobl yn cael diagnosis o un neu fwy o gyflyrau ieched hirdymor, megis diabetes a dementia, ac mae gan bobl hŷn yn gynyddol anghenion mwy cymhleth^{vii}.

Mae Cymru'n gweithio i drawsnewid a chysoni gwasanaethau fel bod dinasyddion a staff ieched a gofal cymdeithasol yn profi gwasanaethau fel un endid, heb ystyried ffiniau sefydliadol, gydag integreiddio di-dor ar draws yr holl wasanaethau a lleoliadau gofal.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn canolbwyntio mwy ar atal afieched a hybu ieched, gyda gwasanaethau lleol dan arweiniad gofal sylfaenol yn galluogi pobl i dderbyn y rhan fwyaf o'u gofal yn nes at eu cartref. Pwysleisir cynnal a hyrwyddo annibyniaeth a chynorthwyo pobl i aros yn weithgar am gyhyd â phosibl. Mae angen i ddinasyddion, hefyd, fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu hieched a'u gofal cymdeithasol eu hunain, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol i bennu nodau a gwneud y gwasanaethau a gânt yn fwy personol, er mwyn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad y gallant ei wneud i'w hieched

a'u lles hwy eu hunain. Mae mynediad at wybodaeth gyffredin, cofnodion a rennir, mwy o ddefnydd o dechnoleg ac offer digidol yn allweddol i wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer trawsnewid gofal.

Er mwyn helpu i symud i fodel mwy cymdeithasol o iechyd a gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gefnogi iechyd a lles gwell ym mhob rhan o Gymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014^{viii} yn gosod dyletswyddau ar y GIG ac awdurdodau lleol i wella gwasanaethau, i gynllunio gwasanaethau ar y cyd a gweithio gyda'i gilydd a chyda'r cyhoedd i hyrwyddo llesiant a rhoi mwy o lais i bobl a mwy o reolaeth dros eu gofal. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015^{ix} yn gosod nodau hirdymor, uchelgeisiol i adlewyrchu'r Gymru yr ydym yn dymuno ei gweld, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n egluro ein dyheadau ar gyfer Cymru ffyniannus, gref, gynaliadwy, iachach, fwy cyfartal gyda chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Mae'r strategaeth hon yn croesawu'r cyfeiriad a bennwyd gan y meysydd deddfwriaeth hyn a bydd yn rhoi cyfeiriad strategol i ddatblygu gwasanaethau a alluogir gan dechnoleg i fod o gymorth i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

Mwy na geiriau^x yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod yna lawer o bobl na allant gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal ond drwy gyfrwng y Gymraeg, neu fod yn well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg. Mae angen datblygu a gweithredu ein systemau TG i gofnodi sgiliau iaith staff a dewisiadau iaith cleifion a chynorthwyo staff rheng flaen i ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n siarad Cymraeg. Bydd yn bwysig cynllunio'n ddigonol ar gyfer dwyieithrwydd, wrth weithredu systemau newydd a gwasanaethau digidol, fel y bodlonir anghenion y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff sy'n siarad Cymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynhyrchu dogfen^{xi} gyda chynghor ar ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu technoleg, gwefannau a meddalwedd, a ddilynir fel rhan o weithredu'r strategaeth.

Mae'r strategaeth hon wedi ei gosod yn erbyn cefndir o dystiolaeth^{xii} sy'n awgrymu bod pobl yng Nghymru, yn unol â gweddill Ewrop, yn croesawu manteision gwasanaethau digidol ac ar-lein. Dengys y rhagolygon y bydd dyfeisiadau digidol sy'n gysylltiedig yn dod yn gynyddol hollbresennol, o ganlyniad i dueddiadau byd-eang megis technoleg y gellir ei gwisgo a 'rhyngwrwyd y pethau'.^{xiii} Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y system iechyd a gofal cymdeithasol a'i staff hefyd yn cydnabod anghenion pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol, a sicrhau bod y dinasyddion hynny yn derbyn yr un gefnogaeth ac yn cael eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau a chymorth.

Pedair egwyddor gofal iechyd darbodus


Ailfodelu'r berthynas rhwng y defnyddiwr a'r darparwr ar sail CYDGYNHYRCHU



GOFALU AM y rhai â'r anghenion iechyd mwyaf YN GYNTAF



Dim ond gwneud YR HYN SYDD EI ANGEN



a PHEIDIO AG ACHOSI NIWED



drwy ddulliau gweithredu sy'n SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gofaliechyddarbodus.org.uk



Gwybodaeth i chi

Bydd pobl yng Nghymru yn:

- Edrych ar eu gwybodaeth drwy fynediad ar-lein at eu cofnodion, fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwell ynglŷn â'u hiechyd a'u gofal a chael mwy o reolaeth ar eu lles eu hunain, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.
- Ychwanegu at eu gwybodaeth a'u cofnodion, gan fwydo i mewn fanylion a fyddant efallai wedi eu casglu o ffynonellau eraill, megis apiau a dyfeisiadau y gellir eu gwisgo, pan fo hynny'n briodol, i chwarae rhan weithredol mewn datblygu a gwella ansawdd y wybodaeth a gedwir amdanynt ac am eu hiechyd a'u lles.
- Defnyddio apiau digidol fel mater o arferiad a byddant yn defnyddio dyfeisiadau y gellir eu gwisgo ac adnoddau ar-lein eraill i fod yn gyfranogwyr gwybodus a gweithredol yn eu gofal. Byddant yn medru gwneud penderfyniadau gwybodus a dewisiadau o ran ffordd o fyw i gynnal eu lles.
- Cysylltu ar-lein gyda gwasanaethau iechyd a gofal yn yr un ffordd ag y maent yn gwneud gydag agweddau eraill ar eu bywyd. Byddant yn gallu archebu apwyntiadau ar-lein, archebu presgripsiynau amlroddadwy a defnyddio'r rhyngwrwyd, e-bost a fideo-gynadledda i gysylltu â chlinigwyr a gweithwyr gofal proffesiynol mewn ffordd sy'n gyfleus iddynt, gan leihau oedi a chostau i'r gwasanaeth a defnyddwyr y gwasanaeth.
- Defnyddio gwasanaethau a alluogir yn ddigidol fel mater o arferiad i fonitro cyflyrau hirdymor a thasgau dyddiol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl byw'n annibynnol ar gyfer yr unigolion a'r teuluoedd hynny lle y mae hyn yn ofynnol.

Cael mynediad at eich gwybodaeth a chyfrannu at eich gofal

Bydd dinasyddion yn gallu cael mynediad ar eu cofnodion iechyd a gofal. Mae Cymru'n ymrwymedig i sicrhau mynediad ar-lein i ddinasyddion at eu gwybodaeth, a gedwir yn

system electronig practis eu meddygon teulu, erbyn Ebrill 2017^{xiv}.

Mae llawer o wasanaethau yn dal i ddibynnu ar gofnodion papur ond os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ddigidol fe ddaw yn bosibl i ddinasyddion weld y wybodaeth hon, er enghraifft, llythyrau a gohebiaeth arall, meddyginiaeth bresennol a chanlyniadau profion, ond yn ddarostyngedig bob amser i ystyriaethau priodol ynghylch diogelwch a chyfrinachedd.

Bydd y cyhoedd yn hyderus bod eu data'n cael ei gadw'n ddiogel a bob amser yn cael ei rannu'n briodol i gefnogi eu gofal uniongyrchol. At hynny, mae arnom eisiau i ddinasyddion gymryd y cyfrifoldeb am ffyrdd eraill y caiff eu gwybodaeth bersonol ei defnyddio a chael cyfle i ddewis beth y maent yn ei rannu a gyda phwy, gan gynnwys aelodau o'r teulu a'u gofalwyr, os mai dyma'r hyn yr hoffent ei weld yn digwydd.

Bydd pobl yn cael y cyfle i gyfrannu i'w cofnodion os ydynt yn dymuno a lle bo'n briodol iddynt wneud hynny. Bydd unigolion yn cael eu hannog i ddiweddarau eu cynllun gofal gyda nodau personol a chyflawniadau, cofnodi eu gofynion neu eu dewisiadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg neu unrhyw nam synhwyrdd a allai effeithio ar eu darpariaeth gofal, yn ogystal ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig, megis ethnigrwydd neu grefydd, y maent yn teimlo y bydd yn bwysig i'w darparwr gofal wybod amdanynt. Hefyd bydd cyfleoedd i roi adborth am eu profiadau, drwy arolygon bodlonrwydd ar-lein, ac adrodd am ganlyniadau eu gofal

Mae Rhodri, yn 68 oed, yn defnyddio Cymraeg fel ei iaith gyntaf ac wedi dechrau cael anawsterau cof tymor byr. Hoffai gyfathrebu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn Gymraeg ac mae'n mewngofnodi ar y porthol ar-lein cenedlaethol i gleifion i gofnodi'r angen hwn. Y tro nesaf iddo ymweld â'r clinig, bydd y derbynnydd yn gallu gweld y wybodaeth hon ac ymateb i'w ofynion.

Mae rhai pobl eisoes yn creu eu cofnod iechyd a gofal personol gan ddefnyddio offer digidol, megis gwefannau ac apiau ymatebol. Mae'r cofnodion hyn yn eiddo i'r unigolyn, yn cael eu rheoli a'u cynnal ganddo, a gall ddewis rhannu'r wybodaeth gyda'i weithiwr iechyd a gofal proffesiynol neu eraill os yw'n dymuno. Fwyfwy, bydd pobl yn gallu casglu data iechyd a lles yn hawdd drwy apiau ar eu ffonau clyfar a thabledi cyfrifiadurol. Byddant yn medru defnyddio dyfeisiadau y gellir eu gwisgo i fonitro pwysau gwaed cyfradd y galon neu lefelau siwgr yn y gwaed, er enghraifft. Bydd y ffynhonnell gyfoethog hon o ddata iechyd a ffordd o fyw bersonol yn dod yn fwy amlwg yn y dyfodol a bydd dinasyddion yn gallu rhannu data perthnasol, os ydynt yn dymuno, gyda'u meddyg, eu therapydd, nyrs arbenigol neu weithiwr gofal cymdeithasol. Bydd cofnodion iechyd a gofal yn cael eu galluogi i dderbyn y wybodaeth bersonol hon a'i defnyddio'n awtomatig i ysgogi rhybuddion a chefnogi penderfyniadau clinigol a rheoli gofal.

Mae Alan yn cael problemau gyda phoen cefn ac wedi bod yn ddi-waith am beth amser. Yn ddiweddar, mae wedi bod yn teimlo'n ddigalon ac yn bryderus. Fel rhan o gynllun triniaeth Alan, mae'n defnyddio rhaglen therapi ymddygiad gwybyddol ar-lein i'w helpu i nodi a newid ffyrdd o feddwl di-fudd. Mae hefyd yn cadw mewn cysylltiad â'i feddyg teulu arbenigol drwy fideo-gynadledda i ddilysu diagnosis, cynllunio triniaeth a monitro ei gyflwr yn ystod ac ar ôl triniaeth.

Galluogi pobl i gyfranogi'n weithredol

Bydd pobl yng Nghymru yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth y bydd arnynt eu hangen, ac mewn fformat y byddant yn ei ddeall, i'w hysbrydoli i gymryd camau i gynnal, gwella a diogelu eu hiechyd a'u lles eu hunain a bod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu gofal.

Byddant yn defnyddio technolegau digidol a chymorth i edrych ar eu hól eu hunain i ddod yn fwy gwybodus am eu cyflwr, cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd, gofalu amdanynt eu hunain a



chyfrannu'n weithredol at gynllunio a chyflawni eu cynlluniau gofal. Bydd pobl yn defnyddio sianelau digidol, megis y cyfryngau cymdeithasol ac apiau, i rannu eu gwybodaeth a'u profiadau ac, os byddant yn dymuno, yn ymgysylltu â rhwydwaith cymdeithasol ehangach.

Mae David yn ddyn 40 mlwydd oed sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes Math 2 yn ddiweddar. Mae'n derbyn cefnogaeth dda gan ei feddyg teulu a'i nyrs arbenigol ond mae arno eisiau deall mwy am sut y mae eraill yn rheoli ac yn ymdopi â'u diabetes. Mae'n ymuno â rhwydwaith diabetes ar-lein, achrededig, lle mae'n gallu rhannu profiadau, cael cyngor a gwella'i ddealltwriaeth o'i gyflwr.

Bydd pobl a gofalwyr yn cael gafael ar y wybodaeth y mae arnynt ei hangen o ffynonellau dibynadwy drwy amrywiaeth o dechnolegau a byddant yn hyderus bod y ffynonellau gwybodaeth dibynadwy y maent yn eu defnyddio yn cael eu cadw'n gyfredol, gyda'r dystiolaeth ddiweddaraf a'r arferion gorau. Byddant yn gwybod bod y rhain yn cael eu cyd-ddylunio gan gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth ynghyd â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gwirfoddol.

Bydd pobl yn cael eu cynorthwyo a'u 'hyfforddi' gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gynyddu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth, gan eu galluogi i osod nodau realistig a newid eu hymddygiad iechyd a'u

ffordd o fyw. Mae yna dystiolaeth^{xv} gynyddol fod dinasyddion rhagweithiol, sy'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a'r sylfaen o dystiolaeth ynghylch eu cyflwr, gydag agwedd o gyd-gynhyrchu eu hiechyd a'u lles, yn mwynhau gwell canlyniadau a hynny'n arwain at lai o gost i'r systemau iechyd a gofal.

Bydd pobl yn cyfathrebu a rhyngweithio'n haws gyda'u gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, drwy e-bost, negeseuon testun, sain a fideo gynadledda er enghraifft, a darparwyr gwasanaethau eraill drwy gyfrwng gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, os bydd yn fwy cyfleus ac yn briodol iddynt wneud hynny. Byddant hefyd yn gallu defnyddio gwasanaethau gwybodaeth a chyngor dros y ffôn i gael gwybodaeth ddibynadwy a chyngor personol neu i gael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol drwy gyfeiriaduron rhyngweithiol ar-lein a'r gwasanaethau cenedlaethol a lleol hefyd sydd ar gael yn eu cymuned.

Roedd Aled yn bryderus ynghylch Cerys, ei ffrind, oedd yn teimlo'n isel a heb fwyta'n dda nac edrych ar ei hôl ei hun yn iawn. Cerys yw prif ofalwr ei mam, sydd yn yr ysbyty ac yn dioddef o salwch terfynol. Defnyddiodd Aled ei ffôn symudol i edrych ar Infoengine¹ – cyfeiriadur gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol ar-lein ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Daeth o hyd i fanylion Gwasanaeth Gofalwyr Powys a rhoddodd y manylion i Cerys fel y gallai hi gael cymorth personol iddi hi ei hun fel gofalwr tra roedd salwch ei mam yn datblygu.

Bydd pobl hefyd yn gallu ymgymryd â thrafodion arferol fel trefnu apwyntiadau neu archebu presgripsiynau amlroddadwy. Manteisir i'r eithaf ar y potensial i ddarparu gwasanaethau gwell, cyflymach am gost is ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

Anfonir nodiadau atgoffa a rhybuddion ynglŷn ag iechyd a gofal personol yn ddigidol, gan gynnwys nodiadau atgoffa am feddyginiaeth neu ymarfer, rhybuddion am apwyntiadau a

diweddariadau ar y fan lle mae pobl yn eu llwybr gofal, neu eu cynnydd yn erbyn y cynllun gofal y cytunwyd arno.

Er bod y byd digidol yn parhau i ehangu fe fydd yna bobl yng Nghymru nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno cael gafael ar wybodaeth nac ymgysylltu â gwasanaethau, cyngor a chymorth yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd pobl yn gallu cael mynediad at ddulliau gwahanol, mwy traddodiadol i'w galluogi i gyfranogi'n weithredol.

Defnyddio technoleg i gefnogi annibyniaeth a hyrwyddo lles

Mae cynorthwyo pobl hŷn neu bobl â chyflyrau hirdymor, cyflyrau iechyd meddwl neu anableddau eraill, i barhau'n egniol ac annibynnol yn flaenoriaeth, nid yn unig i ddinasyddion ond i'w teuluoedd, gofalwyr ac i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Gall technoleg helpu i ddarparu llawer o wasanaethau yng nghartref rhywun neu'n agos iddo, a gall hefyd helpu i wella ansawdd eu bywyd yn eu cartref a thra maent yn yr ysbyty. Mae wi-fi cyhoeddus am ddim yn cael ei osod bellach mewn llawer o adeiladau cyhoeddus gan gynnwys ysbytai.

"Gareth ydy f'enw i. Rydw i'n 44 mlwydd oed, ac ar y 15fed o Fedi 2003 cefais ddiagnosis o'r Clefyd Niwronau Motor (MND). Dros y 12 mlynedd ddiwethaf mae hwn, yn araf, wedi dwyn oddi arnaf y rhan fwyaf o bethau y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Dydw i ddim yn medru cerdded mwyach, gwisgo amdanaf na fy mwydo fy hun ac oddeutu pum mlynedd yn ôl collais y gallu i wneud sgwrs ddealladwy. Yn awr rydw i'n cyfathrebu drwy gyfrifiadur arbennig, er bod fy nau blentyn gwych yn dal i fedru cyfieithu fy nghlebran.

Mae cyfathrebu, drwy'r amser, yn anodd i mi ac mae'n debyg nad oes gan staff sy'n gweithio mewn ysbytai lawer o brofiad o MND. Ddiwedd Hydref 2014, cefais fy nerbyn i'r ysbyty ac, am nad oeddwn yn medru defnyddio fy

nghyfrifiadur na'r rhyngwrwyd, roedd cyfathrebu yn anodd a rhwystredig iawn. Efallai ei fod yn ymddangos yn beth bychan i'r rhan fwyaf o bobl ond roedd peidio â chael mynediad at y rhyngwrwyd yn boen go iawn. Ond nid y rhyngwrwyd yn unig ydy'r peth; dyma sut rydw i'n cadw cysylltiad â'm teulu a'm ffrindiau drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Byddai hefyd wedi helpu gyda'r cyfnodau hir o ddiflastod; rydw i'n credu'n gryf bod cadw'r meddwl yn gadarnhaol ac yn brysur yn cynorthwyo iechyd corfforol a lles.

Er nad oes arnaf eisiau dod yn ôl i'r ysbyty am resymau amlwg, bydd gwybod bod yna wi-fi am ddim yn awr yn gwneud gwahaniaeth enfawr i mi; bydd yn golygu yn y bôn y byddaf yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl pan fo angen, y tu mewn i'r ysbyty a'r tu allan.

Mae technolegau clyfar a thechnolegau byw gyda chymorth yn defnyddio synwryddion a dyfeisiadau yng nghartrefi pobl i fonitro ac i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol gyhyd ag y maent yn dymuno. Gall y technolegau hyn helpu i reoli'r amgylchedd o'u cwmpas, megis cau llenni, agor drysau a rheoli eu gwresogyddion. Roedd a'u diogelwch. Gallant helpu i atal unigrwydd cymdeithasol, drwy alluogi pobl i sgwrsio â ffrindiau a theulu drwy eu setiau teledu digidol, er enghraifft, a chefnogi'r rhai â dementia drwy ddarparu ysgogiadau awtomataidd i'r cof.

72 mlwydd oed ydy Mavis, ac mae hi'n dioddef o ddementia cynnar. Mae hi'n byw ar ei phen ei hun ac yn ymdopi'n dda ar y cyfan, ond yn raddol mae hi wedi mynd yn fwy anghofus. Yn ddiweddar, cafodd ei mab Graham alwad gan gymydog ar ôl i Mavis adael tap yn rhedeg yn yr ystafell ymolchi. Roedd dŵr wedi dechrau ymdreiddio i'r fflat odditanodd. Ar ychydig o achlysuron, canfu ei bod wedi gadael drws yr oergell ar agor mor hir fel bod rhaid taflu bwyd i ffwrdd.

Bellach mae synwryddion wedi'u ffitio i ddrws ei hoergell a thapiau'r ystafell ymolchi. Os gadewir yr oergell ar agor



bydd larwm yn atgoffa Mavis i gau'r drws. Mae hefyd yn anfon neges i ffôn symudol Graham. Yn yr ystafell ymolchi, mae synwryddion awtomatig bellach yn cau'r tap yn awtomatig.

Mae Graham hefyd wedi gosod calendr awtomatig wrth ymyl gwely ei fam sy'n dangos y dyddiad a'r amser, ac a yw'n fore neu gyda'r nos i helpu i atal dryswch.

Defnyddir gwasanaethau iechyd a gofal a alluogir gan dechnoleg, megis tele-iechyd a thele-ofal, i fonitro o bell synwryddion yn y cartref ac mewn ffonau symudol a dyfeisiadau, i helpu i sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn gallu rheoli eu sefyllfa a/neu eu cyflyrau yn well. Gall y cynlluniau hyn fod o gymorth i gynnal hyder a rhoi sicrwydd nid yn unig i'r dinesydd ei hun ond hefyd i'w deulu, ei ofalwyr a'i weithwyr iechyd a gofal.

Er y defnyddir y gwasanaethau hyn yng Nghymru, nid ydynt yn cael eu mabwysiadu mor eang â phosibl nac yn cael eu defnyddio ar raddfa fawr. Byddwn yn hyrwyddo, yn ehangu ac yn sefydlu gwasanaethau a alluogir gan dechnoleg wrth ailgynllunio gwasanaethau iechyd a gofal, gan sicrhau bod y technolegau cysylltiedig hyn yn ddewis gofal arferol, a byddwn yn mesur i ba raddau y cânt eu defnyddio. Bydd mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau hyn, a alluogir gan dechnoleg, fel rhan greiddiol o ddylunio gwasanaethau hefyd yn cynhyrchu data allweddol ar y gwasanaeth a ddarperir ac anghenion gofal pobl yn y cartref.

Gall pobl ddisgwyl cael cymorth yn gynyddol drwy gyfleusterau digidol, fydd yn eu galluogi i dderbyn gwasanaethau yn uniongyrchol drwy gyfrwng technoleg megis ymgynghoriadau fideo, gwasanaethau negeseuon diogel a chymorth uniongyrchol ar-lein. Gellir defnyddio'r gwasanaethau hyn yn y cartref neu mewn meddygfeydd neu adeiladau cyhoeddus priodol eraill, megis llyfrgelloedd neu hyd yn oed swyddfeydd post a siopau. Gall gwasanaethau digidol ac ar-lein o'r fath leihau amser teithio ar gyfer staff a dinasyddion (sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig iawn yng Nghymru), ac osgoi'r helbul diangen o ymweliadau i weld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.


Mae gan Bronwen sglerosis ymledol ac mae angen iddi fynychu ei chlinig rheolaidd yn Ysbyty Treforys, sy'n daith o tua dwy awr o'i chartref. Yn hytrach na mynd i gar am daith hir, anghyfforddus, bydd yn mynd at ei meddyg teulu i gael cymryd gwaed ac wedyn yn eistedd gartref ac yn mewngofnodi ar borth fideo, gan ddefnyddio ei thabled cyfrifiadurol i 'fynychu'r' clinig fideo. Bydd

yn siarad yn uniongyrchol â'r nyrs arbenigol sy'n gallu monitro ei chyflwr a gwirio bod safleoedd ei phigiadau yn goddef triniaeth yn dda.

Mae Powys yn un o'r chwe rhanbarth yn Ewrop sy'n cymryd rhan yn y Prosiect Gofal Da, sy'n edrych ar sut y gall technoleg gefnogi gofal integredig i bobl hŷn, eiddil. Ym Mhowys, mae 100 o gleifion yn cymryd rhan yn y prosiect, sy'n edrych ar y modd y mae dyfeisiadau symudol yn medru galluogi gweithwyr cymunedol i rannu gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol mewn amgylchedd byw ar draws y gwasanaethau cymunedol. Cefnogir hyn drwy fynediad eang at gyfeiriadur lleol o wasanaethau a chysylltiadau cyfathrebu gwell rhwng meddygon ysbytai a meddygon teulu.

Bydd ail ran y prosiect yn cyflwyno tele-fonitro o bell a mynediad i gleifion at ddeunyddiau addysg i wella llythrennedd iechyd cleifion a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain. Caiff dull yr ymgynghoriad fideo a fabwysiedir gan y Bwrdd Iechyd ei wella i gynnwys ymgynghoriadau â chleifion yn eu cartrefi eu hunain.

- Apulia, yr Eidal
- Rhanbarth Veneto, yr Eidal
- Zagreb, Croatia
- Silesia Isaf, Gwlad Pwyl
- Gwlad y Basg, Sbaen
- Powys, Cymru



Ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n fuan²

- Gan adeiladu ar ein profiad o ddarparu Fy Iechyd ar-lein^{xvi} ac Ychwanegu at Fywyd^{xvii} byddwn yn datblygu porth dinasyddion ar-lein³ lle y bydd pobl, erbyn 2017, yn gallu gweld, cadarnhau a golygu eu manylion. Bydd y cyfnod cyntaf yn cynnwys y gallu i bobl:
 - Edrych ar wybodaeth a gedwir o fewn systemau meddygon teulu
 - Diweddarau eu manylion cyswllt a'u gwybodaeth allweddol
 - Edrych ar lythyrau yn ymwneud â'u gofal
 - Cynnal eu hasesiadau iechyd eu hunain, cwblhau arolygon bodlonrwydd ac adrodd am eu profiadau a chanlyniadau'r gwasanaethau gofal a gawsant.

Mae hyn yn ychwanegol at y gallu i drefnu apwyntiadau meddyg teulu ar-lein ac archebu presgripsiwn amlroddadwy, sydd eisoes ar gael drwy Fy Iechyd Ar-lein.

Bydd cyfnodau diweddarach porth y dinasyddion yn cynnwys:

- Edrych ar wybodaeth am feddyginiaeth
 - Edrych ar ganlyniadau profion
 - Edrych pa weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi defnyddio'r cofnod iechyd a gofal
 - Edrych ar wybodaeth a gedwir mewn systemau ysbyty, cymuned a gofal cymdeithasol megis apwyntiadau cleifion allanol, hysbysiadau a gohebiaeth arall
 - Rhannu gwybodaeth berthnasol ar iechyd a lles sy'n cael ei chasglu gan yr unigolyn gyda'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol drwy borth y dinasyddion
- Byddwn yn cyhoeddi, ac yn ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein, yr ymddiriedir ynddynt, sydd wedi'u cyd-lunio wrth i ddefnyddwyr gwasanaeth a chleifion eu hunain ymwneud â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a sefydliadau'r trydydd sector.
 - Bydd pobl fydd yn mynychu'r holl leoliadau gofal iechyd mawr, fel ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol, yn cael mynediad at wasanaeth wi-fi cyhoeddus.
 - Dylai pobl, lle bo'n briodol, ddisgwyl gallu defnyddio gwasanaethau fideo-alw am apwyntiadau ac ymgynghoriadau rhithwir ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal.

Cefnogi gweithwyr proffesiynol

Bydd staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn:

- Casglu gwybodaeth yn electronig wrth ddarparu gofal, mewn fformat strwythuredig fel y gellir ei defnyddio i ddarparu sylfaen gyffredin o wybodaeth a chofnodion integredig ar draws yr holl leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Defnyddio gwybodaeth a chofnodion gofal electronig i gydweithredu'n llawn â dinasyddion, gan sicrhau bod dewisiadau a phenderfyniadau yn cael eu cyd-gynhyrchu a bod gofal yn gydlynol a chydgylltiedig o gwmpas anghenion personol y defnyddiwr gwasanaeth unigol neu'r claf a'i ofalwr.
- Defnyddio technoleg fel mater o arferiad ym mhob lleoliad gofal i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith yn effeithiol, gyda chymorth i wneud penderfyniad ar-lein, cofnodion electronig a dulliau awtomataidd o weithio, er mwyn gwella ansawdd a diogelwch a lleihau risg.
- Cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio offer digidol sydd ar gael i'r rheiny sy'n gweithio mewn sectorau eraill: e-bost, y rhyngwrwyd a fideo gynadledda.
- Defnyddio data a gwybodaeth er mwyn deall y canlyniadau y maent yn eu cyflawni, i gefnogi gwaith ymchwil ac i gynnal archwiliad, dysgu oddi wrth ddigwyddiadau ac ysgogi gwelliannau mewn perfformiad.
- Mabwysiadu athroniaeth 'digidol yn gyntaf' wrth ddylunio a darparu gwasanaethau newydd, er mwyn hyrwyddo modelau gwasanaeth a gweithlu a alluogir yn ddigidol, sy'n hyblyg a symudol.
- Meddu ar sgiliau i weithio'n dda o fewn amgylchedd sy'n cael ei alluogi'n ddigidol.

Cofnodion electronig a mynediad at wybodaeth

Mae'r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gynorthwyo staff gyda systemau, cymwysiadau ac offer electronig i gasglu a rhannu

gwybodaeth wrth ddarparu gofal ac i hyrwyddo gweithio integredig ar draws yr holl weithwyr proffesiynol a lleoliadau. Mae meddygon teulu a gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi gwneud cynnydd da wrth symud at gofnodion a phrosesau electronig yn hytrach na rhai papur. Mae angen mwy o waith, fodd bynnag, mewn lleoliadau gofal ysbty a gofal cymunedol i drawsnewid cofnodion papur, sydd heb strwythur i raddau helaeth, yn gofnodion electronig cyflawn, ystyrlon, y gellir eu rhannu ar draws yr holl arbenigeddau, proffesiynau a disgyblaethau a'u hintegreiddio â chofnodion meddygon teulu, cofnodion cymunedol a rhai gofal cymdeithasol. Bydd gwasanaeth cofnodion gofal Cymru yn gyfrifol am ddarparu, rheoli a chyd-drefnu gofal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda storfa ganolog o e-ffurflenni a dogfennau o systemau cenedlaethol a lleol.

Parafeddyg yw John ac mae'n ateb galwad 999 brys oddi wrth Mrs Davies. Er mwyn canfod cymaint o wybodaeth ag y gall am ei chyflwr, a gwneud yr asesiad clinigol gorau, mae'n cael ei chaniatâd i edrych ar ei chofnod meddyg teulu, sydd ar gael iddo ar-lein drwy Bractis Cyffredinol Cymru. Mae'n darganfod ei bod hi wedi cael diagnosis o glefyd coronaidd y galon a bod tabledi gwrth-geulo wedi eu rhagnodi ar ei chyfer. Mae John yn cyfleu'r holl wybodaeth berthnasol i'w gydweithiwr Sarah, sy'n barafeddyg ac sydd ar ei ffordd i weld Mrs Davies.

Fel pob criw ambiwlans yng Nghymru, mae Sarah yn defnyddio ysgrifbin ddigidol i gasglu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i Mrs Davies ac yn cwblhau cofnod gofal papur y claf yn yr ambiwlans. Wrth iddi ysgrifennu, mae gwybodaeth bwysig yn cael ei chofnodi gan yr ysgrifbin mewn fformat wedi'i amgryptio a'i chadw'n ddigidol. Mae hi'n gadael copi papur o'r ffurflen ysgrifenedig gyda'r claf a'r nyrs pan fyddant yn cyrraedd yr adran achosion brys.

Mae Sarah yn gosod yr ysgrifbin mewn gorsaf ddocio a throsglwyddir y wybodaeth a gasglwyd am y claf yn ddiogel i system archwilio clinigol y gwasanaeth ambiwlans. Mae hefyd ar gael i'w hanfon ymlaen at weithwyr proffesiynol gofal eraill a allai fod ei hangen i gefnogi gofal dilynol Mrs Davies. Mae hyn nid yn unig yn arbed amser sylweddol i Sarah ar ei shifft brysur ond mae hefyd yn gwella cyflymder adrodd, gan ei gwneud yn haws monitro ansawdd y gofal clinigol sy'n cael ei ddarparu gan staff y gwasanaeth ambiwlans a rhannu gwybodaeth werthfawr gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill hynny sydd ei hangen.

Yn y dyfodol, bydd pob aelod o staff ambiwlans brys yn defnyddio dyfais tabled a fydd yn ei alluogi i edrych ar gofnod cryno o iechyd y claf yn y fan a'r lle. Bydd gwybodaeth allweddol megis diabetes, alergeddau, presgripsiynau diweddar, hanes meddygol a chymorth gan deulu a ffrindiau yn helpu parafeddygon i wneud penderfyniadau allweddol ynghylch y gofal gorau ar gyfer pob claf, ac a oes angen iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty, aros gartref ynteu cael mynediad at wasanaethau eraill yn ei gymuned leol.

Mae symrlwydd casglu data yn hanfodol bwysig. Mae staff sy'n gweithio mewn amgylchedd ysbyty prysur, yn aml o dan bwysau, neu ymhell mewn lleoliadau cymunedol a chartrefi pobl, angen gallu cyrchu, casglu, dilysu a throsglwyddo data yn hawdd ac yn gyflym gan ddefnyddio dyfeisiadau symudol megis ffonau clyfar, tabledi a dulliau eraill o gofnodi data megis adnabod llais.

Rhaid i'r staff fedru casglu gwybodaeth unwaith wrth ddarparu gofal a sicrhau ei bod ar gael wedyn i eraill sy'n gysylltiedig â gofal y person hwnnw. Bydd hyn yn osgoi dyblygu diangen o safbwynt y staff, gan atal ailadrodd prosesau casglu data, a bydd hefyd yn osgoi gofyn yn ddiangen i bobl am yr un manylion demograffig a gwybodaeth arall fwy nag unwaith, oni bai bod hyn am resymau diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol.

Rhaid casglu'r wybodaeth yn y cofnod electronig, ei chofnodi a'i storio mewn ffordd sy'n caniatáu



Parafeddyg yn defnyddio ysgrifbin ddigidol mewn ambiwlans

iddi gael ei defnyddio a'i rhannu yn gywir ac yn gyson heb unrhyw risg o golled na newid yn yr ystyr. Mae hyn yn gofyn am safonau cenedlaethol ar gyfer cynnwys a strwythur y cofnod. Bydd safoni strwythur y cofnod a'r cynnwys yn hanfodol i uno'r nodiadau yn y cofnod gofal a rhoi sylfaen o wybodaeth integredig i'r staff er mwyn sicrhau gofal diogel, o ansawdd uchel. Mae angen safonau clinigol, proffesiynol a thechnegol i sicrhau bod ystyr y data yn cael ei rannu rhwng y gwahanol systemau sy'n cael eu defnyddio (gweler yr adran ddiweddarach ar safonau cenedlaethol).

Mae cydweithio rhwng y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn mynd rhagddo yn gyflym ac mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) wedi'i chaffael yn ddiweddar. Bydd hyn yn caniatáu i staff sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio un system a chofnod electronig a rennir o'r gofal ar gyfer dinasyddion unigol. Cychwynnodd y gweithredu ym mis Mai 2015 ac mae iddo'r potensial i chwyldroi'r modd y darperir gwasanaeth, gan ei gwneud yn bosibl sefydlu arferion gwaith cyson ar draws y gweithlu iechyd a gofal a darparu gofal di-dor ar gyfer dinasyddion. Bydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)^{xviii} yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cadw cofnodion ar y cyd a galluogi darparwyr gwasanaeth gwahanol i gael mynediad at wybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn saff ac yn ddiogel.

Mae Delyth, sy'n 84 oed, yn byw ar ei phen ei hun ac mae ganddi anawsterau symudedd ac anadlu. Mae hi'n derbyn cefnogaeth dda gan ei meddyg teulu, nyrs arbenigol ac ymgynghorydd ysbyty. Maent wedi gofyn i wasanaethau cymdeithasol adolygu ei phecon gofal gan ei bod hi'n cael anhawster gwneud prydau bwyd iddi hi ei hun ac yn mynd yn eiddil. Mae ei gweithiwr gofal uwch yn trafod y dewisiadau gyda Delyth a chan ddefnyddio ei dyfais symudol mae'n mewngofnodi ar yr WCCIS ac yn gofyn am wasanaeth pryd ar glud i Delyth.

Mae Thomas yn 58 mlwydd oed ac wedi cael diagnosis o ganser y geg. Caiff gwybodaeth am ei ofal ac asesiadau tîm aml-ddisgyblaethol eu cofnodi'n electronig ar yr WCCIS. Cyn gynted ag y bydd Thomas yn cael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth, bydd y tîm aml-ddisgyblaethol sy'n rheoli ei ofal yn derbyn hysbysiad digidol ei fod wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty. Pan fydd yn cael ei ryddhau, caiff ei driniaeth ddilynol a'i ofal, gan gynnwys therapi galwedigaethol, ei gyd-drefnu drwy gyfrwng yr WCCIS, gan osgoi dyblygu a chan sicrhau gwasanaeth cydgysylltiedig, o safon uchel a phrofiad o ansawdd da i Thomas.

Canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch – 'peidio â gwneud niwed'

Mae darparu gwasanaethau diogel, o safon uchel yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond yn enwedig ansawdd y data a gofnodir, sut mae'n cael ei gyfleu a'i rannu rhwng gwahanol adrannau, gweithwyr proffesiynol a staff eraill.

Er mwyn darparu gwasanaethau diogel, o safon uchel rhaid i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol gael:

- Mynediad at gofnod cyfredol o ofal am eu claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth. Rhaid iddo fod o fewn cyrraedd pa le bynnag a phryd bynnag y mae ei angen yn yr ysbyty, y gymuned, ym meddygfa'r meddyg teulu, neu yn y cartref a rhaid iddo ganolbwyntio ar yr unigolyn, nid ar y clefyd, y gwasanaeth na'r sefydliad lle y darperir y gofal.
- Mynediad dibynadwy ac amserol at y

wybodaeth seiliedig ar dystiolaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol. Bydd staff yn gallu edrych ar y wybodaeth hon yn y fan lle y maent yn rhoi gofal fel y gallant ei thrafod a'i rhannu gyda'u claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

- Mynediad at ddata a gwybodaeth gyfunol am eu practis a'r canlyniadau sy'n cael eu sicrhau i ddefnyddwyr gwasanaeth a chleifion er mwyn medru adolygu perfformiad, ymgymryd ag ymchwil ac archwiliad, gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir, gwella ansawdd, sicrhau y glynir at safonau ac y mabwysiedir yr arferion gorau.

Cafodd Mrs Evans, 71, ei rhyddhau o'r ysbyty yr wythnos diwethaf. Tra roedd hi yn yr ysbyty defnyddiodd y meddygon a'r fferyllwyr *Borth Clinigol Cymru* i greu llythyr gwybodaeth rhyddhau electronig iddi. Ar y diwrnod y cafodd ei rhyddhau anfonwyd y llythyr hwn yn electronig i bractis ei meddyg teulu, gan ddefnyddio Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru. Roedd ei llythyr gwybodaeth rhyddhau yn cofnodi manylion ei meddyginiaethau pan gafodd ei rhyddhau a'r newidiadau a wnaed i'w meddyginiaethau yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty.

Ddoe, aeth Mrs Evans i fferyllfa gymunedol yn y dref lle mae hi'n byw. Defnyddiodd y fferylllydd y cymhwysiad '*dewis fferyllfa*' i ddod o hyd i fanylion Mrs Evans ac edrych ar ei llythyr gwybodaeth rhyddhau electronig. Cafodd y wybodaeth am feddyginiaethau o'r llythyr gwybodaeth rhyddhau eu copïo ar draws yn awtomatig i'r ffurflen adolygu meddyginiaethau rhyddhau yn y system '*dewis fferyllfa*' a gallai'r fferylllydd gymharu ac adolygu'r meddyginiaethau, yr oedd y meddyg teulu wedi eu rhagnodi, â'r wybodaeth am feddyginiaethau yn llythyr gwybodaeth rhyddhau yr ysbyty.

Yn awr, gan fod Mrs Evans wedi cofrestru yn y fferyllfa ar gyfer adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau, bydd ei fferyllfa yn cael ei hysbysu yn awtomatig yn y dyfodol os bydd hi'n cael ei rhyddhau o ward ysbyty gan ddefnyddio *Porth Clinigol Cymru*. Gall y fferyllfa wedyn gysylltu â Mrs Evans a gofyn a fyddai hi'n hoffi cael adolygiad meddyginiaethau rhyddhau arall.

Drwy ddefnyddio offer digidol i gynorthwyo gyda llif gwaith, cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau, caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu cynorthwyo i wneud y pethau cywir, i'r claf cywir, ar yr adeg gywir ar eu llwybr, er mwyn rhoi gofal o'r safon uchaf, seiliedig ar dystiolaeth, ac atal niwed diangen. Tynnir eu sylw fel mater o arferiad pan geir gwyrriad oddi wrth y llwybrau cytunedig neu brotocolau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau bod eu prif ffocws yn parhau ar wella canlyniadau, lleihau nifer y gwallau, dileu achosion o niwed y mae modd eu hosgoi, a dysgu oddi wrth ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd.

Cefnogi newid yn y gwasanaeth

Mabwysiedir athroniaeth 'digidol yn gyntaf' wrth ddylunio a darparu modelau newydd o wasanaeth a gweithlu. Caiff staff eu cynorthwyo i foderneiddio eu harferion gweithio drwy groesawu cyfleoedd digidol newydd, gan gynnwys darparu gwasanaeth yn uniongyrchol drwy gyfrwng technoleg megis rhith-ymgyngoriadau. Drwy awtomeiddio prosesau arferol, bydd staff yn gwella eu cynhyrchiant, bydd llai o oedi, bydd modd osgoi dyblygu a gwastraffu a cheir costau gweithredu is o ganlyniad.

Mae ffotograff yn werth mil o eiriau

Gall meddygon teulu yng Nghaerdydd a'r Fro anfon ffotograffau digidol o gyflyrau croen yn uniongyrchol i wefan ddiogel i ymgynghorwyr dermatoleg edrych arnynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall yr ymgynghorwyr gynghori'r meddyg teulu ynghylch diagnosis a rheoli cyflwr y croen, heb iddynt weld y claf yn uniongyrchol.

Mae cleifion wrth eu bodd yn cael diagnosis buan a chynghor arbenigol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, triniaeth leol, yn lle aros i gael eu gweld mewn clinig dermatoleg. Mae'n arbed apwyntiadau cleifion allanol diangen i gleifion ac yn sicrhau bod y cleifion, sydd angen cael eu gweld gan ddermatolegydd, yn cael y flaenoriaeth addas.

Yn 2013-2014, defnyddiodd 65% o bractisau meddygon teulu y gwasanaeth a chynhaliwyd mwy na 4,500 o ymgynghoriadau tele-ddermatoleg. Yn 98% o'r achosion gwnaed diagnosis llwyddiannus oddi wrth y ddelwedd a gyflwynwyd ac wedyn cafodd 70% o gleifion eu tring gan eu meddyg teulu eu hunain yn dilyn y cynghor a dderbyniwyd.

Mae tele-ddermatoleg hefyd yn helpu i addysgu meddygon teulu oherwydd eu bod yn derbyn cynghor buan ar ôl cyfeirio'r claf ac mae'n caniatáu i ddermatolegwyr wneud defnydd mwy effeithlon o'u hamser. Mae tele-ddermatoleg yn enghraifft dda o ofal iechyd darbodus sy'n ei gwneud yn bosibl rhoi diagnosis a thrin clefydau croen yn nes adref.



Datblygu Gweithlu

Mae'r newidiadau i wasanaethau ysbytai aciwt, symud mwy o ofal yn nes adref, ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol i gyd yn arwydd o newidiadau yn y trefniadau gweithio presennol ar gyfer ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd ar staff angen mwy o hyblygrwydd, i weithio ar draws ffiniau sefydliadol, traddodiadol iechyd a gofal cymdeithasol ac ymgymryd â swyddogaethau newydd, gan weithio mewn lleoliadau cymunedol ac mewn timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae gan dechnoleg a chofnodion a rennir, fel yr amlinellwyd eisoes, rôl allweddol mewn gwneud y trawsnewid hwn mewn gweithlu a gwasanaeth yn bosibl, ond ni fydd technoleg ar ei phen ei hun yn cyflawni'r newid. Mae angen buddsoddi a thalu yr un faint o sylw i addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu ynghyd â'r newid diwylliannol er mwyn cynorthwyo'r staff i wneud y trawsnewid hwn.

Bydd y defnydd cynyddol o dechnoleg, o ran amrywiaeth a chwmpas, yn ei gwneud yn ofynnol datblygu'r gweithlu technegol sy'n cefnogi ac yn cynnal systemau a gwasanaethau gwybodeg a hefyd sicrhau cefnogaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol, sy'n wynebu newidiadau sylweddol yn eu harferion gweithio presennol wrth i bapur gael ei ddisodli gan systemau digidol.

Bydd llawer o bobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo'n hyderus i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio a defnyddio technoleg; serch hynny, bydd eraill yn brin o hyder. Rhaid inni wneud y dechnoleg yn syml ac yn reddfol i'w defnyddio a buddsoddi mewn labordai dysgu a ffyrdd eraill o ymgysylltu'n llawn â staff wrth ddylunio systemau newydd. Rhaid adolygu yn awr y rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer y staff presennol a'n rhaglenni addysg uwch ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sydd wrthi'n cael eu hyfforddi, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth ddigidol yn cael eu hymgorffori mewn cyrsiau a bod unrhyw ddiffygion sgiliau yn derbyn sylw.

Caiff pob aelod o staff ei gefnogi i ddeall ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau o ran rheoli cyfrinachedd a gwybodaeth, a chyflawni ei rôl gan ddefnyddio technoleg a gwasanaethau digidol.



Patholegydd yn gwirio canlyniadau ar System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru

Bydd gofyn am newid mewn adnoddau, oddi wrth staff yn cyflawni gwaith seiliedig ar bapur i brosesau ac arferion gwaith newydd er mwyn cynorthwyo staff i ddefnyddio technoleg yn effeithiol wrth iddi gael ei datblygu. Mae angen mwy o fuddsoddiad i ddwyn dadansoddiad o brosesau busnes ynghyd gyda gofynion data a thechnoleg, er mwyn sicrhau bod manteision arferion gweithio newydd, a alluogir yn ddigidol, yn cael eu gwireddu.

Gwyddom oddi wrth gynlluniau gweithlu presennol fod yna brinder cydnabyddedig mewn rhai sgiliau gwybodeg a sgiliau technegol arbenigol yng Nghymru. Edrychir ar ddulliau newydd o weithio gyda diwydiant a'r byd academaidd er mwyn llenwi'r bylchau hyn, er enghraifft 'academiau codio'. Mae galw am sgiliau dadansoddi data hefyd ond mae'r cyflenwad yn brin. Mae cyfleoedd yn bodoli ar gyfer mwy o gydweithredu wrth ddadansoddi data, i Gronni ein hadnoddau ac adeiladu capasiti a gallu o fewn ac ar draws sefydliadau, gan rannu dysgu a safoni'r offer a'r llwyfannau a ddefnyddir (gweler [Gwybodaeth a deallusrwydd y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol](#) tudalen 23).

Bydd sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol ynghyd â phartneriaid, megis Gwasanaethau Datblygu Addysg y Gweithlu (WEDs) a darparwyr addysg uwch, yn creu cynlluniau datblygu gweithlu integredig er mwyn mynd i'r afael â goblygiadau'r strategaeth o safbwynt gweithlu.

Ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n fuan

- O eleni ymlaen, bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cynllunio ar y cyd sut y bydd angen ailddylunio gwasanaethau a sut y caiff arferion gweithio newydd eu cyflwyno, ar draws timau iechyd a gofal cymdeithasol unedig, gyda chymorth System Wybodaeth Gofal Cymunedol integredig Cymru (WCCIS). Mae hwn yn gam hollbwysig i gynorthwyo timau iechyd cymunedol, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol lleol i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddi-dor ynghyd â dinasyddion, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Bydd WCCIS yn ei gwneud yn bosibl casglu gwybodaeth yn electronig, ei chydgyssylltu a'i rhannu'n briodol ar draws lleoliadau gofal cymunedol ac eraill, gan gynnwys adrannau achosion brys, a gyda gweithwyr gofal proffesiynol eraill, gan gynnwys meddygon teulu.
- Yn ystod y flwyddyn hon mae offeryn archwilio cenedlaethol yn cael ei gyflwyno, fydd yn sicrhau bod rheolau ynghylch rheoli gwybodaeth yn cael eu dilyn ac na rennir gwybodaeth ond â gweithwyr proffesiynol priodol yn unig. Bydd hyn yn caniatáu rhannu mwy o wybodaeth rhwng gofal sylfaenol, cymunedol a gofal eilaidd ac ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Bydd staff, sy'n gweithio mewn adrannau achosion brys ysbytai, yn cael system wybodaeth glinigol newydd i hyrwyddo arferion gweithio effeithlon a lleihau dibyniaeth ar bapur. Dechreuwyd gweithredu'r system Gymru gyfan hon yn 2015.
- Erbyn 2016, bydd Porth Clinigol Cymru wedi cael ei ymestyn i'w gwneud yn bosibl edrych ar gofnodion gofal unigolion, a gedwir yn ddigidol, fydd yn hygyrch ar draws ffiniau sefydliadau a lleoliadau gofal, i'w gweld pryd bynnag a lle bynnag y bo'u hangen i gefnogi gofal diogel ac effeithiol.
- Bydd staff yr ysbyty yn cael mynediad at ddelweddau o lwybr y claf a systemau rheoli llif, fydd yn gwneud yn bosibl:
 - Casglu data amser real, erchwyn gwely a symudol
 - e-ffurflenni – yn cynnwys ffurflenni asesu safonol
 - e-lif gwaith – ffurflenni deinamig, y gall pawb sy'n ymwneud â llwybr gofal y claf eu cwblhau


Mae'r manteision yn cynnwys darlun mewn amser real o'r pwysau ar wlaŵ a llif gwaith ysbyty a ffynhonnell data amser real ynghylch statws ysbyty, sydd ar gael yn gyhoeddus. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu'r system hon yn ystod cylch cynllunio integredig 2016/17.

- O 2015 ymlaen, caiff system radioleg newydd o rannu delweddau ei gweithredu i roi mynediad digidol diogel i glinigwyr at ddelweddau, waeth beth fo'r sefydliad lle y cychwynnodd yr ymchwiliad.
- O 2015 ymlaen, ehangir y defnydd o wasanaethau demograffig cenedlaethol er mwyn sicrhau bod yr holl systemau perthnasol newydd ar draws iechyd a gofal yn defnyddio'r gwasanaeth i gael mynediad at, a chynnal, gwybodaeth ddemograffig gyfredol am ddinasyddion.
- Yng nghynlluniau cyflawni 2016/17, rhoddir blaenoriaeth i offer rheoli meddyginiaethau'n electronig ac offer i gynorthwyo i wneud penderfyniadau a chynllunio gofal er mwyn hwyluso llif gwaith a diogelwch cleifion. Sefydlir bwrdd rhaglen newydd i arwain ar y gwaith hwn a dechrau caffael system fferylliaeth ac e-ragnodi mewn ysbytai yng Nghymru.

Gwelliant ac arloesedd

Byddwn yn:

- Canolbwyntio ar wneud defnydd gwell o ffynonellau data cenedlaethol a gwybodaeth leol i fod o gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus a gwella'r modd y cynllunnir gwasanaeth, iechyd y boblogaeth, ymchwil a datblygiad.
- Adeiladu llwyfan technegol mwy 'agored' i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddatblygu cymwysiadau newydd, yn seiliedig ar safonau cenedlaethol clir, rhyng-weithredu rhwng systemau a chynnal y dull partneriaeth sydd wedi bod yn nodwedd amlwg o'n llwyddiant hyd yma.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth adnewyddu ein cynlluniau a chyd-ddylunio ein dyfodol digidol – staff rheng flaen, dinasyddion, sefydliadau trydydd sector, partneriaid mewn diwydiant a phrifysgolion, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – er mwyn cael dull newydd o harneisio arloesedd, dysgu oddi wrth yr hyn sy'n gweithio mewn mannau eraill a mabwysiadu'r atebion hyn mewn ffordd ystwyth, gyflym ac ymatebol i wireddu'r manteision a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl Cymru.



Gwybodaeth a deallusrwydd y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol

Mae angen i'r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru ddefnyddio data a gwybodaeth lefel y boblogaeth i gynllunio gwasanaethau ar y cyd, gwneud penderfyniadau gwybodus a chanfod cyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd a chronni adnoddau er mwyn sicrhau gwerth gorau. Mae hefyd angen iddynt ddefnyddio data i feincnodi canlyniadau a pherfformiad, i ddysgu oddi wrth gymariaethau cenedlaethol a rhyngwladol ac ysgogi gwelliannau.

Mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allu cyrchu data yn hawdd ac yn gyflym er mwyn deall eu hymarfer, eu perfformiad a'u canlyniadau, cynnal archwiliad, ymgymryd ag ymchwil a dysgu oddi wrth ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd.

Mae angen hefyd i'r cyhoedd gael mynediad gwell at ddata a gwybodaeth am sut y mae'r system yn perfformio i gael sicrwydd am safonau ac ansawdd y gofal sy'n cael ei gyflenwi, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch defnyddio gwasanaethau.

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd o ran ychwanegu gwerth at y data a gedwir ar hyn o bryd mewn systemau gweithredol lleol gydag, er enghraifft, NWIS, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus^{xix} a banc data *secure anonymised information linkage*^{xx} (SAIL) yn gweithio gyda'i gilydd i gyhoeddi data marwolaethau, rheoli heintiau a data arall fel mater o arferiad i gynnig tryloywder i'r cyhoedd. Mae angen gwneud mwy i wireddu potensial y gwasanaethau hyn gyda'i gilydd i gynhyrchu gwybodaeth am wasanaethau, capasiti a gallu ledled Cymru.

Mae angen dull mwy cydweithredol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, gan gronni ein capasiti a'n gallu mewn dadansoddi data, adeiladu llwyfan cyffredin a defnyddio offer

deallusrwydd cyffredin ynghyd â dysgu a rennir. Bydd rhaid i system gwybodaeth a deallusrwydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol gwmpasu holl rychwant data iechyd a gofal, i gynnwys yn y pen draw ddata gan gontractwyr annibynnol mewn gofal sylfaenol, megis fferyllwyr ac optometryddion, a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Bydd gweithio agosach gyda'r holl bartneriaid, yn enwedig ein prifysgolion, yn allweddol oherwydd mai hwy sy'n gallu cynnig y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sylweddol mewn rheoli data ar raddfa fawr a chynnal gwaith ymchwil.

Golyga'r duedd gynyddol mewn defnyddio technoleg a chasglu data personol ein bod yn gweld ffrwydrad ym maint ac ystod y data lles ac iechyd sydd ar gael. Mae angen i Gymru fod yn barod ac yn rhagweithiol wrth baratoi'r llwyfannau technegol a mabwysiadu'r dull gwybodaeth am wasanaethau i allu storio, prosesu a manteisio ar y 'data mawr' hwn a'i gysylltu â setiau data iechyd a gofal cymdeithasol eraill, megis data ariannol a data'r gweithlu, er mwyn datblygu system wirioneddol wybodus.

Bydd rhaid i'n staff, gweithwyr proffesiynol clinigol a heb fod yn glinigol, staff gwybodeg arbenigol ac eraill, ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad o reoli a defnyddio'r swm mawr hwn o ddata deinamig, fydd yn destun rheolau cadarn i reoli cyfrinachedd a gwybodaeth.

Safonau Cenedlaethol

Bydd y data a ddefnyddir i'r dibenion deallusrwydd a ddisgrifir uchod wedi deillio o'r wybodaeth a gesglir fel rhan o'r prosesau gofal arferol a'r llu o drafodion a rhyngweithiadau sy'n digwydd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a chleifion bob dydd.

Mae'n rhaid casglu'r data hwn mewn ffurf strwythuredig gan ddefnyddio diffiniadau cenedlaethol a safonau cenedlaethol er mwyn sicrhau rhyngweithredu rhwng data a systemau. Rhaid mabwysiadu'r safonau cenedlaethol hyn yn unffurf a'u defnyddio'n gyson i sicrhau y gellir rhannu, dadansoddi a defnyddio'r data yn ddiogel heb risg o golled na newid yn yr ystyr.

Mae angen i reolaeth a seilwaith cadarn fod wedi ei sefydlu ar lefel genedlaethol i yrru'r agenda hollbwysig hon yn ei blaen. Bydd Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r DU a sefydliadau rhyngwladol i benderfynu ar y safonau ar gyfer strwythur a chynnwys y cofnod gofal.

Dull cenedlaethol o harneisio arloesedd

Mae'r egwyddor o gydweithio ledled Cymru i ddarparu atebion ar y cyd wedi'i hen sefydlu a bydd yn parhau. Byddwn yn cynnal saerniaeth dechnegol genedlaethol (y llwyfan technoleg cenedlaethol sy'n diffinio'r rhwydweithiau cyfathrebu, diogelwch, caledwedd a meddalwedd a ddefnyddir ar draws GIG Cymru), sy'n sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau ac y gall amrywiaeth o systemau a meddalwedd gysylltu'n ddi-dor.

Lle ceir gofynion craidd yn y llwyfan cenedlaethol, byddwn yn hybu cryfder ac effeithlonrwydd drwy ddefnyddio systemau cyffredin, ar sail 'unwaith i Gymru'. Byddwn yn buddsoddi mewn partneriaethau datblygu a chynorthwyo gyda chyflenwyr allweddol er mwyn gwella'n barhaus ar ansawdd, cadernid a hollbresenoldeb y systemau craidd hyn a gyrru cost y ddarpariaeth i lawr; gweithio'n gynyddol ar draws y sector cyhoeddus ehangach yn unol ag argymhellion y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*^{xxi}.

Ceir llawer o fanteision o fabwysiadu'r dull cyffredin hwn, gan gynnwys mwy o safoni a lleihau'r cymhlethdod. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu llwyfan agored, fydd yn caniatáu datblygu a defnyddio cymwysiaid newydd ac arloesol yn gyflymach, gan ymateb yn uniongyrchol i anghenion a disgwyliadau defnyddwyr, dinasyddion a staff.

Mae yna dechnolegau a dyfeisiadau modern ar gael, megis tabledi cyfrifiadurol llaw, a gaiff eu defnyddio i wella profiadau bob dydd dinasyddion a staff. Bydd hyn yn ein galluogi i weld ac ychwanegu at ddata'r cofnod gofal, a gedwir mewn systemau iechyd a gofal

cymdeithasol, mewn amrywiol ffyrdd, heb orfod newid cynllun cenedlaethol sylfaenol 'unwaith i Gymru'.

Byddwn yn gweithio gydag arloeswyr, entrepreneuriaid a chyflenwyr o wahanol sectorau i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio cymwysiadau a gwasanaethau y mae pobl yn eu cael yn hawdd eu defnyddio. Byddwn yn datblygu'r cysyniad o ffordd fwy ffurfiol o gydweithio drwy rwydwaith iechyd digidol neu 'ecosystem iechyd'^{xxii} fel ffordd i gyflymu hyn.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau mynediad at, a mabwysiadu, technolegau ac arloesedd y dyfodol, gan gynnwys cysylltu a chynyddu arfer gorau. Byddwn yn adolygu'r agwedd bresennol at labordai arloesi, gan gynnig mynediad hawdd at gyfleusterau profi, gyda phwyslais arbennig ar fusnesau llai o faint, sy'n tyfu'n gyflym a chwmnïau eraill sy'n deillio ohonynt.

Un egwyddor arweiniol fydd bod profiad y defnyddiwr yn allweddol, er mwyn sicrhau bod cynhyrchion meddalwedd newydd yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio'n gynt, ac

felly byddwn hefyd yn hwyluso ymgysylltiad defnyddwyr drwy gydol y broses ddatblygu. Byddwn yn codi diddordeb mewn cymunedau lleol i gynyddu llythrennedd digidol a chyfranogiad.

Mae symud i systemau mwy agored a thryloyw, datblygu meddalwedd yn gyflym a defnyddio dyfeisiadau newydd, megis tabledi cyfrifiadurol, yn gofyn am sgiliau gwybodaeth, rheoli a datblygu sydd y tu hwnt i gapasiti a gallu presennol y GIG ac awdurdodau lleol. Felly, byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion a phartneriaid eraill i sefydlu a chodi ymwybyddiaeth o 'academïau codio' a sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau.

Byddwn yn cynyddu ein cyfranogiad a'n defnydd o raglenni cyllido ymchwil ac arloesi Ewropeidd a rhyngwladol eraill i gefnogi a chyfoethogi ein dull gweithredu, gan adeiladu ar y partneriaethau presennol a rhai newydd gyda sefydliadau iechyd a gofal Ewropeidd.

Ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n fuan

- Yn 2016, byddwn yn sefydlu bwrdd rhaglen gyda chylch gorchwyl clir i benderfynu ar y cyfeiriad ar gyfer manteisio'n well ar ffynonellau data cenedlaethol a gweithredol a gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r gwasanaethau dadansoddi data sydd ar gael ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Yn 2016, byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer rhwydwaith cydweithredu iechyd digidol neu 'ecosystem', fydd yn cefnogi datblygu sgiliau, yn hyrwyddo mynediad at systemau craidd ar gyfer partneriaid ac yn pennu llwybr clir ar gyfer defnyddio cynhyrchion newydd.
- Yn 2016 byddwn yn cyhoeddi set o safonau technegol a phecyn cymorth datblygu meddalwedd i agor y llwyfan cenedlaethol allan, er mwyn cefnogi hyfforddiant a chaniatáu i rwydwaith achrededig o bartneriaid ddatblygu cymwysiadau ac atebion. Llunnir strategaeth gymwysiadau newydd i sicrhau y gellir darparu a defnyddio'r apiau a ddylunnir yn gyflym.
- Yn 2016, byddwn yn creu strategaeth dechnegol fydd yn moderneiddio ac yn safoni'r seilwaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – i fod o gymorth i weithio ar y cyd â chyrff sector cyhoeddus eraill a gwneud rhwydweithiau a gwasanaethau agored yn bosibl. Bydd yn cynnwys cyflwyno un mewngofnodiad ar gyfer staff sy'n gweithio mewn amgylcheddau clinigol ac sy'n dibynnu ar systemau lluosog i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd hyn yn galluogi staff i ddefnyddio eu dyfeisiadau eu hunain, lle bo'n briodol, ac yn cefnogi gweithio symudol. Byddwn hefyd yn edrych i mewn i gyfleoedd cyfrifiadura'r 'cwmwl' i wneud gwasanaethau digidol yn fwy effeithlon a chost-effeithiol.

Dyfodol cynlluniedig

Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn gosod cyfrifoldeb statudol ar y GIG ac awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Defnyddir y systemau cynllunio a phartneriaeth hyn ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyflawni ar gyfer rhoi'r strategaeth hon ar waith. Bydd y cynlluniau hefyd yn cymryd i ystyriaeth mai rhywbeth sy'n datblygu yw'r strategaeth ddigidol sector cyhoeddus er mwyn sicrhau dulliau a safonau cyson a rhyngweithredu i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus di-dor yn y dyfodol ar gyfer pobl Cymru.

Cynlluniau cyflawni iechyd a gofal cymdeithasol digidol (DHSC)

Bydd y cynlluniau cyflawni yn ei gwneud yn ofynnol mabwysiadu dull cyson a graddol, fydd yn cyflymu manteision cael seilwaith cenedlaethol 'unwaith i Gymru'. Ar yr un pryd bydd y dull hwn yn gymorth i ddatblygu a gweithredu systemau cynlluniedig a chytunedig lleol fel bod modd ymdrin yn fuan ac yn ymatebol i welliannau gwasanaeth sy'n cael eu galluogi'n ddigidol a newid yn y gweithlu.

Bydd y GIG ac awdurdodau lleol yn cytuno ar gynlluniau cyflawni DHSC lleol, treigl, tair-blynedd mewn ymateb i'r strategaeth hon. Bydd y cynlluniau hyn yn cyd-fynd ac yn ategu cynlluniau tymor canolig integredig, tair blynedd, cyrff y GIG, a byddant yn cysylltu â'r prosesau cynllunio a phartneriaeth lleol ehangach, gan gynnwys cynlluniau integredig sengl a ddatblygir ar lefel awdurdodau lleol. Un flaenoriaeth ar gyfer gwaith cynllunio a gweithredu ar y cyd y DHSC ym mlynnyddoedd cychwynnol datblygu'r strategaeth fydd cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Bydd cynlluniau cyflawni lleol y DHSC yn adlewyrchu gofynion y rhaglen genedlaethol, blaenoriaethau cydgynllunio, gofynion

defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion, cynlluniau adnoddau a chynigion i ddatblygu ac ailfodelu'r gweithlu ac ailgynllunio gwasanaethau o fewn ac ar draws ffiniau byrddau iechyd.

Efallai hefyd y caiff cynlluniau cyflawni DHSC lleol eu hadolygu gan fyrddau gwasanaethau lleol fel y gall yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid ystyried cyfleoedd i rannu dulliau a blaenoriaethau.

Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn parhau i alw am gyd-drefnu a goruchwyliaeth genedlaethol a dull cydweithredol Cymru gyfan o gynllunio a darparu.

Bydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar ofynion seilwaith Cymru gyfan a byddant yn cydweithio i ddatblygu cynllun cyflawni iechyd a gofal cymdeithasol digidol, cenedlaethol, tair-blynedd, fydd yn cyd-fynd â chynlluniau DHSC fydd wedi eu diffinio'n lleol ac yn nodi'r elfennau hynny y gellir eu cyflawni orau ar sail Cymru gyfan.

Caiff y canllawiau cynllunio blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cylch cynllunio integredig ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru eu diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyfer cynlluniau cyflawni DHSC lleol a chenedlaethol yn 2016/17.

Buddsoddiad

Mae'r broses gynllunio integredig, dair-blynedd sy'n cael ei sefydlu ar draws y GIG a Llywodraeth Leol yn rhoi cyfle am ddull mwy cynhwysfawr o gytuno ar flaenoriaethau buddsoddi ar gyfer technoleg a newid mewn gwasanaeth a alluogir yn ddigidol.

Nid yw ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol digidol a nodir yn y strategaeth hon yn rhywbeth dewisol. Rhaid i gyllid ar gyfer technoleg a newid i wasanaeth digidol gael ei adlewyrchu fel blaenoriaeth mewn cynlluniau yn y dyfodol a chael ei weld gan yr holl sefydliadau fel buddsoddiad hanfodol mewn adeiladu gwasanaethau diogel, cynaliadwy, integredig, mwy effeithlon a hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau a phrofiadau o safon uchel i ddinasyddion.

Bydd sefydliadau'r GIG yn nodi eu gofynion buddsoddi ar gyfer technoleg a newid i wasanaeth a alluogir yn ddigidol drwy ddatblygu cyfres o raglenni amlinellol strategol (SoPs). Bydd y rhain yn ystyried gofynion buddsoddi dros bum mlynedd ac yn alinio dyraniadau refeniw, cyfalaf dewisol a ffynonellau ariannu lleol eraill, er mwyn sefydlu'n glir pa adnoddau sydd eu hangen. Caiff hyn wedyn ei ystyried o fewn proses rhaglen gyfalaf Cymru gyfan.

Edrychir yn llawn hefyd ar ddulliau newydd ac arloesol o gyllido gan gynnwys ffynonellau Ewropeaidd a rhyngwladol o gyllid.

Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol:

- Groesawu'r weledigaeth, yr uchelgais a'r cyfleoedd a ddisgrifir yn y strategaeth hon.
- Defnyddio'r prosesau cynllunio lleol a chenedlaethol a'r trefniadau partneriaeth sydd eisoes yn bodoli i ddatblygu cynlluniau cyflawni ar y cyd.
- Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, yn arbennig pobl leol, defnyddwyr gwasanaeth a staff, i ddeall eu gofynion a'u hanghenion am wybodaeth ac atebion digidol.
- Datblygu cynlluniau cyflawni iechyd a gofal cymdeithasol digidol (DHSC) lleol, tair-blynedd, fydd yn sail i newid mewn gwasanaeth ac i fodolau gweithlu newydd er mwyn trawsnewid gwasanaethau lleol.
- Cytuno ac alinio'r gwaith o gyflawni cynlluniau DHSC lleol gyda'r cynllun cyflawni cenedlaethol, a ddatblygwyd ar y cyd ac mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
- Sicrhau bod y cynlluniau cyflawni DHSC, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ymdrin â'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu buan, a nodwyd yn y strategaeth hon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol i adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cynlluniau cyflawni DHSC lleol a chenedlaethol, sydd wedi eu halinio â rhaglen gyfalaf Cymru gyfan.
- Sicrhau bod egwyddorion gofal iechyd darbodus yn cael eu hymgorffori yn y dull o gyflenwi iechyd a gofal digidol ar draws y system gyfan.
- Parhau i weithio'n rhagweithiol gyda chyrrff safonau y DU a rhyngwladol ac adolygu'r trefniadau llywodraethu a'r trefniadau seilwaith ar gyfer mabwysiadu safonau cenedlaethol yng Nghymru.
- Parhau i adeiladu partneriaethau a harneisio cyfleoedd i weithio'n agos gyda systemau iechyd a gofal cymdeithasol Ewropeaidd gan gynnwys mwy o gyfranogiad a mwy o ddefnydd o raglenni ariannu ymchwil ac arloesedd.
- Gweithio gyda'r GIG, llywodraeth leol a phartneriaid eraill i datblygu strategaeth ar gyfer ecosystem iechyd digidol yng Nghymru.



Cyfran y bobl sy'n defnyddio'r




RHYNGRWDYD

DIM OND

drwy ffôn symudol neu ffôn clyfar yn parhau i fod yn





8%

yng **NGHYMRU**, y ffigur uchaf o'r gwledydd datganoledig



Defnydd o'r rhyngrwyd

Defnydd poblogaidd o'r rhyngrwyd yng Nghymru:



Cyfeiriadau

- i Gwefan Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)
<http://www.psba.org.uk/cymraeg>
- ii Gwefan Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/956/hafan>
- iii Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) Strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/956/ihc_a5-e.pdf
- iv Llywodraeth Cymru (2012) Cydamcanu – Cydymdrechu.
Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau
<http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/sharedpurpdel/?skip=1&lang=cy>
- v Llywodraeth Cymru (2014) Rhoi Gofal Iechyd Darbodus ar Waith [gwefan]
<http://www.prudenthealthcare.org.uk/cy/>
<http://www.prudenthealthcare.org.uk/tg/>
<http://www.prudenthealthcare.org.uk/tg-2/>
- vi Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011)
Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu
<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/?skip=1&lang=cy>
- vii Llywodraeth Cymru (2015) Arolwg Iechyd Cymru 2014
<http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy>
- viii Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014)
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?skip=1&lang=cy>
- ix Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>
- x Llywodraeth Cymru (2012) Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>
- xi Comisiynydd y Gymraeg (2015) Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg
<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/isadeiledd/Pages/Technoleg,-Gwefannau-a-Meddalwedd-Ystyried-y-Gymraeg.aspx>
- xii Ofcom (2014) Adroddiad y farchnad gyfathrebu: Cymru (Awst 2014)
<http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/communications-market-reports/cmr15/?lang=cy>
- xiii Wikipedia [nid oes dyddiad] Diffiniad o 'Y rhyngwrwd o bethau'
http://en.wikipedia.org/wiki/Internet_of_Things

-
- xiv Llywodraeth Cymru (2015) Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru hyd at 2018
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150218primaryen.pdf>
 - xv Fforwm Gwybodaeth i Gleifion (2013) Gosod yr Achos dros Wybodaeth: Y Dystiolaeth dros Fuddsoddi mewn Gwybodaeth o Safon Uchel ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
<http://www.pifonline.org.uk/topics-index/planning/business-case-for-informationlevers/>
 - xvi Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru: gwefan Fy Iechyd ar-lein
<http://www.wales.nhs.uk/nwis/tudalen/53486>
 - xvii Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (2015) Ychwanegu at Fywyd [gwefan]
<https://addtoyourlife.wales.nhs.uk/intro.cfm>
 - xviii Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI)
<http://www.waspi.org/>
 - xix Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/hafan>
 - xx Banc data Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) Prifysgol Abertawe
<http://www.saildatabank.com/>
 - xxi Llywodraeth Cymru (2014) Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: yr adroddiad llawn a'r atodiadau Ionawr 2014
<http://gov.wales/topics/improving-services/public-service-governance-and-delivery/?skip=1&lang=cy>
 - xxii Manteision Ecosystem Cynghair Iechyd Gysylltiedig Ewropeaidd
<http://www.echalliance.com/ecosystems/about-ecosystems/>
-

Troednodiadau

- 1 Cafodd Infoengine ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol ac mae'n darparu gwybodaeth am amrywiaeth o wasanaethau gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus sy'n gallu helpu i wella iechyd a lles pobl.
 - 2 Drwy'r ddogfen i gyd, dangosol yw'r dyddiadau gan fod gweithredu yn dibynnu ar gydgyllunio, datblygu cynlluniau darparu iechyd a gofal cymdeithasol digidol cytunedig a chymeradwyo'r achos busnes.
 - 3 Bydd y rhaglen waith hon yn cyd-redeg ac wedi ei hintegreiddio â'r gwaith sydd eisoes ar y gweill gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) ar borthol 'Dewis' y dinasyddion.
-

Inffograffeg

OFCOM: Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu: Cymru (Awst 2015)